# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ionawr 2024

Amser: 13.33 - 15.48

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13671

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)428 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 2.2 SL(6)429 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)430 – Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) (Dirymu) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)431 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)433 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Gwelliannau) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(6)434 – Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(6)432 – Rheoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(6)419 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 4.2 SL(6)436 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 4.3 SL(6)427 – Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 4.4 SL(6)426 – Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

Nid oedd dim offerynnau i'w hystyried o dan yr eitem hon.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

### 6.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod drafft arall yn ei gyfarfod nesaf.

## 10 Cytundebau rhyngwladol: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 11 Adroddiad monitro

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad monitro diweddaraf, a chytunodd i ysgrifennu at Bwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin i gyfrannu gwybodaeth berthnasol at ei ymchwiliad i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf.

## 13 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Trafod gwariant arfaethedig

Trafododd y Pwyllgor Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 a chytunwyd i ystyried adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024.

## 14 Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE: Diweddariad

Ystyriodd y Pwyllgor ei waith parhaus ar Lywodraethiant y DU a'r UE a chytunodd arno.